**Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**HSS-03-03(min)**

**COFNODION**

| | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher, 26 Chwefror 2003 | |
| **Amser:** | 9.00am tan 12.20pm | |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru | |
| **Yn Bresennol:** | **Aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** | |
| | Kirsty Williams **(Cadeirydd)** | Brycheiniog a Sir Faesyfed |
| | Geraint Davies | Y Rhondda |
| | Brian Gibbons | Aberafan |
| | John Griffiths | Dwyrain Casnewydd*(Eitem 2 - Datganiad ar Wasanaethau Orthopedig yn unig)* |
| | Jane Hutt (Gweinidog) | Bro Morgannwg |
| | Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| | Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| | David Melding | Canol De Cymru |
| | Lynne Neagle | Tor-faen |
| | **Hefyd yn bresennol** | |
| | Dr Edward Coyle | Canolfan Iechyd Cymru |
| | Dr Ann Marie Cunningham | Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru |
| | **Swyddogion yn Bresennol** | |
| | Dr Ruth Hall | Y Prif Swyddog Meddygol |

| | |
|---|---|
| John Hill-Tout | Adran GIG Cymru |
| Ann Lloyd | Cyfarwyddwr, GIG Cymru |
| Maria Michael | Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru |
| Richard Tebboth | Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru |
| Helen Thomas | Cyfarwyddwr, yr Adran Polisi Cymdeithasol |
| Graham Williams | Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru |
| Bob Woodward | Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru |
| **Yr Ysgrifenyddiaeth:** | |
| Jane Westlake | Clerc y Pwyllgor |
| Claire Morris | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Eitem 1: Ymddiheuriadau, Eilyddion a Datganiadau o Fuddiant**

1.1 Cafwyd ymddiheuriad gan Jocelyn Davies.

1.2 Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

**Eitem 2: Adroddiad Misol y Gweinidog** *(9.05 - 10.10am)*

**Papur: HSS-03-03(p.1)**

2.1 Gwnaeth y Gweinidog ddatganiad ar y gwasanaethau orthopedig yng Nghymru . Amgaeir copi yn Atodiad A.

2.2 Mewn ymateb i gwestiynau oddi wrth yr Aelodau ar y datganiad, gwnaed y pwyntiau canlynol gan y Gweinidog:

- Byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu cyfalaf a chyllid refeniw ar gyfer y datblygiadau yn Nevill Hall a St Woolos.
- Yn Nevill Hall roedd ward segur yn cael ei hailddatblygu ar gyfer gwaith orthopedig ac yn St Woolos byddai'r gwelyau newydd a oedd yn cael eu darparu yn cael eu clustnodi'n benodol.
- Byddai argymhellion Townsend ar gyfer dyrannu adnoddau yn y GIG yn cael eu rhoi ar waith ym mis Ebrill 2003. Byddai'r fformiwla newydd yn golygu cynnydd yng Ngwent o un flwyddyn i'r llall, a byddai gan hyn effaith sylweddol ar faterion capasiti, yn arbennig yn yr ardaloedd gyda'r

angen mwyaf.

- Byddai cyfanswm o 12 o leoedd hyfforddi ychwanegol ar gyfer cofrestrwyr arbenigol ar gael ledled Cymru yn ystod y tair blynedd nesaf (pedwar lle y flwyddyn). Byddai Gwent yn cael ei siâr o'r rhain.
- Roedd materion practisau preifat ymgynghorwyr yn berthnasol i bob arbenigedd.
- Roedd angen mynd ar ôl atebion cynaliadwy, yn hytrach na thriniaeth, i wella capasiti hirdymor y GIG.
- Roedd gan weithwyr proffesiynol perthynol i iechyd rôl bwysig i'w chwarae i ddatblygu gwasanaethau newydd.
- Byddai'r cynigion yn creu capasiti yn y GIG yng Ngwent. Darparwyd y cyllid ar y sail fod y GIG yn gwneud newidiadau ac yn arloesi.
- Roedd llinellau clir o atebolrwydd wedi'u rhoi yn eu lle i dimau uwch-reolwyr yr Ymddiriedolaeth.
- Roedd problemau'n bodoli ledled De Ddwyrain Cymru ac roedd argymhellion yr Athro Edwards i ddatblygu'r gwasanaethau ym Mro Taf (Llandochau) yn rhoi sylw i'r angen hwn.
- Byddai'r Gweinidog yn parhau i roi'r newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor ar y datblygiadau mewn llawdriniaeth orthopedig yn ei hadroddiad misol.

2.3 Mewn ymateb i sylwadau a chwestiynau oddi wrth yr Aelodau ynghylch gweddill yr adroddiad misol, gwnaed y pwyntiau canlynol gan y Gweinidog:

<u>Adran 1: Materion Strategaeth</u>

- Byddai'r manylion diweddaraf am gostau trosiannol newid strwythurol yn cael eu cynnwys yn adroddiad misol mis Mawrth, ond nid y rhain fyddai'r costau terfynol.
- Roedd y strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru yn cael ei datblygu mewn partneriaeth, wedi'i llywio'n bennaf gan y Rhwydwaith Tlodi Plant yng Nghymru. Roedd diffiniad ymarferol yn cael ei lunio ar gyfer ei ddefnyddio i ddatblygu polisïau a thargedu adnoddau. Buddsoddwyd mewn cynlluniau megis Cychwyn Cadarn, Cymorth, Cymunedau yn Gyntaf a Rhoi Plant yn Gyntaf. Roedd angen tynnu'r rhain at ei gilydd bellach fel rhan o'r gwaith o fynd i'r afael â thlodi plant. Dylai cynllun gweithredu clir ar gyfer y pedair blynedd nesaf fod ar gael erbyn diwedd y flwyddyn.
- Cytunwyd ar y cynigion i drosglwyddo gofal pediatrig arbenigol neffrolegol i gleifion mewnol o Ysbyty'r Waun i Ysbyty Plant Bryste fel y ffordd fwyaf briodol ymlaen yn seiliedig ar y dystiolaeth glinigol. Gellid trefnu i drafod ymhellach â'r rhieni os oes angen.

<u>Adran 2: Perfformiad y GIG</u>

- Sefydlwyd cynlluniau peilot sy'n darparu gwasanaethau gwahanol er mwyn torri anghydfod. Byddai'r rhain yn rhoi sylw i fater costau cyfreithiol annerbyniol a oedd yn dod i'r amlwg ym maes esgeulustod clinigol, a rhan o'u gwaith fyddai ystyried ffyrdd gwahanol o setlo achosion.

Adran 3: Gwella Iechyd a Mynd i’r Afael ag Anghydraddoldebau

- Nid oedd y Gweinidog yn ymwybodol fod ymestyn sgrinio'r fron i fenywod 70 oed yng Nghymru yn digwydd ar gyflymdra gwahanol i weddill y DU.

Adran 4: Rheoleiddio ac Archwilio Ansawdd

- Roedd gwiriadau'n digwydd i sicrhau nad oedd trefniadau amhriodol yn cael eu gwneud i godi tâl am ofal nyrsio mewn cartrefi nyrsio yng Nghymru, yn dilyn y pedwar achos a godwyd gan yr Ombwdsmon yn Lloegr.

Adran 5: Gofal Cymdeithasol

- Byddai'r canllawiau gweithredol a gyhoeddwyd gan Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru ar reoliadau a safonau mewn cartrefi gofal i bobl hn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i gartrefi gofal tra'n sicrhau diogelwch cleifion.
- Byddai arian wedi'i glustnodi'n benodol yn cael ei roi i'r Cynllun Grant Gofalwyr am y ddwy flynedd nesaf.

2.4 Dywedodd y Prif Swyddog Meddygol ei bod wedi cyfarfod â rhieni yn Abertawe i drafod y ddarpariaeth o lawdriniaeth nerfol pediatrig ac roedd yn eu cadw'n hysbys ynghylch y trefniadau gwerthuso dewisol. Cafwyd oedi wrth benodi cadeirydd annibynnol ar gyfer y grp gwerthuso dewisol.

**Gweithredu**

- Byddai gwybodaeth am rwydweithiau cleifion arbenigol yn cael ei chynnwys yn ei hadroddiad misol nesaf.
- Y wybodaeth ddiweddaraf ar waed a chynnyrch gwaed yn cael ei chynnwys yn yr adroddiad misol nesaf.
- Llunio cymhariaeth â'r gwasanaeth sgrinio'r fron a oedd ar gael mewn rhannau eraill o'r DU.
- Y Gweinidog i ysgrifennu at David Melding gyda manylion am drefniadau rheoli Uned Cydraddoldeb y GIG.
- Y Clerc i dynnu sylw'r Pwyllgorau eraill at y Strategaeth Faeth, am ei bod yn cynnwys materion trawsbynciol.
- Darparu'r manylion diweddaraf ar ôl cael golwg ar y trefniadau i godi tâl am ofal nyrsio mewn cartrefi gofal yng Nghymru.

**Eitem 3: Gwella Perfformiad mewn Gwasanaethau Cymdeithasol** *(10.10 - 11.20am)*

**Papur: HSS-03-03(p.2)**

3.1 Cyflwynodd Graham Williams, Prif Arolygydd y Gwasanaethau Cymdeithasol, raglen gwerthuso perfformiad Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGCC); y rhaglen rheoli perfformiad; y rhaglenni arolygu a datblygu ar gyfer 2003-04; a dogfen ymgynghori AGCC, sy'n nodi cynigion ar gyfer y rhaglen arolygu o 2004 ymlaen gan gynnwys y dyfodol ar gyfer cyd-adolygiadau.

3.2 Mewn ymateb i'r papurau, gwnaeth yr Aelodau y pwyntiau canlynol:

- Roedd y cyd-adolygiadau wedi codi proffil y gwasanaethau cymdeithasol yn sylweddol, yn arbennig gwasanaethau plant.
- Roedd cylch cyntaf y cyd-adolygiadau wedi dangos bod gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru yn perfformio'n wael mewn llawer o ardaloedd. Teimlwyd nad oedd yn briodol cyflwyno system newydd ar hyn o bryd. Dylai'r cylch cyntaf fod yn feincnod ar gyfer adolygiadau'r ail gylch.
- Roedd y system gyfredol yn un gref ac annibynnol ac roedd pawb a oedd yn gysylltiedig â phroses y cyd-adolygiadau yn gwerthfawrogi hynny. Byddai angen i unrhyw system a'i dilynai fod yr un mor gadarn ac annibynnol.
- Roedd gwrthdaro buddiannau posibl rhwng rôl arolygu AGCC a'i rôl yn gweithio gydag awdurdodau lleol i wella perfformiad.
- Roedd angen cael sicrwydd na fyddai awdurdodau lleol yn gallu dewis yr ardaloedd i'w harolygu neu eu hadolygu.

3.3 Mewn ymateb i sylwadau'r Aelodau, gwnaeth swyddogion AGCC y pwyntiau canlynol:

- Roedd cyd-adolygiadau, waeth beth fo'u ffurf, yn bartneriaeth rhwng AGCC a'r Comisiwn Archwilio.
- Roedd angen newid ar ôl rhoi terfyn ar y trefniadau yn Lloegr, a oedd yn rhan o'r trefniadau cyd-arolygu cyfredol yng Nghymru a Lloegr, a diddymu'r tim cyd-adolygu canolog.
- Roedd y Gweinidog wedi penderfynu cynnal cylch arall o adolygiadau yng Nghymru. Roedd ymgynghori ar hyn o bryd ar ddull gweithredu hyn, ond byddent yn parhau i fod mewn partneriaeth â'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru.
- Roedd y system gyfredol o Gyd-Adolygiadau wedi edrych ar yr holl wasanaeth, ond nid yn fanwl ar ardaloedd gwasanaeth unigol.
- Roedd y ddogfen ymgynghori wedi'i dosbarthu i gyrff llywodraeth leol, archwilwyr ac arolygwyr eraill, rhwydweithiau sector gwirfoddol drwy Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA),

ac roedd ar gael ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol.

- Roedd trafodaethau'n parhau gyda'r Comisiwn Archwilio i greu dull o gael cyfranddeiliaid yn rhan o'r broses ddatblygu.
- Y bwriad oedd integreiddio cyd-adolygiadau'n llwyr â rhaglenni a mentrau arolygu eraill fel rhan o Raglen Cymru ar gyfer Gwelliant. Byddai hyn hefyd yn sicrhau bod gan y gwasanaethau cymdeithasol broffil uwch ar agenda gyffredinol awdurdodau lleol.
- Roedd angen i'r ymdrech fod yn fwy darbodus. Un o'r cwynion mwyaf cyffredin am gyd-adolygiadau oedd yr amser a'r ymdrech a oedd yn gysylltiedig â chasglu gwybodaeth ymlaen llaw. Byddai'r system rheoli gwybodaeth arfaethedig yn hwyluso'r gwaith rheolaidd o gasglu data cymaradwy o ansawdd da.
- Nid oedd AGCC yn gweld ei rôl yn hwyluso gwelliant fel rhywbeth a oedd yn peryglu ei hannibyniaeth gydag awdurdodau lleol. Gwrthodwyd cais i helpu awdurdod lleol i roi ar waith ei gynllun gweithredu a gyd-adolygwyd. Nid oedd hyn yn rhan o gylch gwaith AGCC.
- Roedd y gwaith arolygu a wnaeth AGCC wedi dangos ei bod yn annibynnol. Yn anffodus, ni lwyddodd y gwaith hwn i gael proffil mor uchel ag adroddiadau cyd-adolygiadau.
- Y ffordd ymlaen arfaethedig fyddai proses barhaus yn hytrach na chyfres o ddigwyddiadau unigol penodol.

3.4 Gan fod hyn yn amlwg yn destun cryn bryder i'r Aelodau, dywedodd y Cadeirydd y dylid argymell yn gryf fod y pwyllgor olynol yn aildrafod y mater unwaith y byddai'r ymarfer ymgynghori wedi'i gwblhau.

**Eitem 4: Adroddiad yr Ymchwiliad Annibynnol i Safle Tirlenwi Nantygwyddon: Adroddiad Cynnydd ar Weithredu'r Argymhellion ar Iechyd Dynol** *(11.30 – 12.20pm)*

**Papur: HSS-03-03(p.3)**

4.1 Croesawodd y Cadeirydd y Dr Edward Coyle, Cyfarwyddwr Canolfan Iechyd gysgodol Cymru, a'r Dr Anne Marie Cunningham, Cymrawd Academaidd yng Ngholeg Meddygaeth Prifysgol Cymru, a fu'n cynghori Canolfan Iechyd Cymru.

4.2 Amlinellodd Dr Coyle brif argymhellion yr adroddiad gan yr Asiantaeth ar gyfer Sylweddau Gwenwynig a'r Gofrestrfa Clefydau (ATSDR). Dywedodd mai'r adroddiad rhagarweiniol oedd hwn a byddai'r ATSDR yn croesawu sylwadau cyn cyhoeddi'r ddogfen derfynol. Roedd yr astudiaeth yn gwerthuso'r broses asesu iechyd cyhoeddus yn Nantygwyddon, ac roedd llawer o'r adroddiad yn ymwneud â'r hyn y gellid ei ddysgu o'r profiad.

4.3 Gwnaeth yr Aelodau'r sylwadau canlynol ar argymhellion yr adroddiad:

- Roedd llawer o'r sicrwydd yn yr adroddiad yn seiliedig ar astudiaethau a wrthbrofwyd yn flaenorol.
- Ychydig iawn o wybodaeth newydd oedd ynddo ac ni chafwyd unrhyw argymhelliad ar gyfer

astudiaethau iechyd newydd, yn wahanol i adroddiad David Purchon i Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth a oedd wedi pwysleisio'r angen am astudiaethau iechyd pellach.

- Roedd y sicrwydd ynghylch risg yn seiliedig ar y fethodoleg a'r rheolaeth dda a oedd yn bodoli ar hyn o bryd. Nid oedd yn rhoi cyfrif am unrhyw risg yn y dyfodol.
- Roedd astudiaeth wyddonol wedi'i llesteirio gan nad oedd y wybodaeth am y sylweddau a dywalltwyd yn Nantygwyddon yn gyflawn.
- Er nad oedd gan fyrddau iechyd lleol yr arbenigedd i ymgymryd ag astudiaethau gwyddonol manwl, roedd ganddynt serch hynny gyfrifoldeb dros iechyd a lles. Wrth lunio eu strategaethau dylent edrych ar yr achosion o glefyd a'r data ar dderbyn cleifion i ysbytai.
- Gellid dysgu gwersi gwerthfawr i'r dyfodol yngln â chyfathrebu'n llawn â phobl, peidio â chelu gwybodaeth a chydnabod eu pryderon.
- Roedd rhywfaint o'r dystiolaeth yn amhendant, er enghraifft ynghylch yr achosion o sarcoidosis, lymffona nad yw'n glefyd Hodgkins, gastroschisis a phwysau geni isel, a dylid parhau i fonitro'r rhain.
- Dylai fod yn ofynnol i Awdurdodau Lleol gyhoeddi astudiaethau o effaith safleoedd tirlenwi ar iechyd a hefyd lle yr argymhellir ailddatblygu safleoedd tir llwyd.
- Gall fod gwrthdaro buddiannau wrth i awdurdodau lleol fonitro effeithiau safleoedd tirlenwi ar iechyd. Gallai fod yn fwy priodol i un o'r cyrff iechyd fonitro hyn.

4.4 Gwnaeth y Prif Swyddog Meddygol y pwyntiau canlynol:

- Gofynnwyd iddi ddatblygu ymhellach ymateb i'r argymhellion iechyd a gododd drwy adroddiad David Purchon. Roedd un ohonynt yn cyfeirio'n benodol at ymchwil bellach. Felly roedd wedi gofyn i ASTDR ystyried yr angen am ymchwil bellach o ran datblygu'r posibilrwydd y gallai fod angen astudiaethau pellach. Y bwriad oedd ychwanegu at yr argymhellion a wnaed gan David Purchon, os oedd angen hynny.
- Roedd Cymru ar flaen y gad wrth baratoi ar gyfer Asesu'r Effaith ar Iechyd a sefydlwyd Uned Gefnogi Asesu'r Effaith ar Iechyd i gefnogi'r broses. Roedd mecanwaith yn cael ei datblygu a fyddai'n adeiladu ar brofiad.
- Roedd diogelu iechyd y cyhoedd yn gadarnach yng Nghymru ar ôl sefydlu Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol, Canolfan Iechyd Cymru a thrwy'r Byrddau Iechyd Lleol.

4.5 Dywedodd y Gweinidog ei bod yn gweithio gyda Sue Essex, y Gweinidog â chyfrifoldeb dros gynllunio, ar y cysylltiadau rhwng polisi iechyd a chynllunio. Roedd Strategaeth Gwastraff Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnwys arf i asesu'r effaith ar iechyd. Ar lefel gymunedol, byddai gan bob Bwrdd Iechyd Lleol Gyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus, a fyddai'n rhan o'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus cenedlaethol

4.6 Dywedodd y Cadeirydd y byddai sylwadau'r Aelodau'n cael eu trosglwyddo i Dr Coyle, i'w bwydo yn ôl i'r ATSDR.

**Gweithredu**

- Y Clerc i gopïo'r cofnodion at Dr Coyle.

**Eitem 5: Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Chwefror 2003**

**Papurau: HSS-02-03(min)**

5.1 Cytunwyd ar gofnodion 5 Chwefror. Nid oedd unrhyw faterion yn codi.